



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG

Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch
Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

Adroddiad Pwyllgor Cam 1
Ionawr 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.assemblywales.org

I gael rahgor o gopiau called o'r ddogfen hon cystlltwch â:

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 1990

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

CYNNWYS

	Tudalen
Aelodaeth y Pwyllgor	3
Crynodeb o'r argymhellion	5
1. RHAGYMADRODD Cyflwyno adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol	10
2. Y CEFNDIR	11
3. YMAGWEDD Y PWYLLGOR	12
4. Y CEFNDIR POLISI Yr angen am ddeddfwriaeth Diffyg gwybodaeth	13
5. SYLWADAU CYFFREDINOL AR Y MESUR Natur Fframweithiol y Mesur Perthynas y trefniadau gwneud iawn â'r weithdrefn gwyno Cynlluniau dim bai	15
6. SYLWADAU PENODOL AR Y MESUR Cwmpas y Cynllun Gwneud iawn (Adrannau 1 a 2) Cynnwys gofal sylfaenol o dan y cynllun gwneud iawn Yr effaith ar weithwyr iechyd proffesiynol Terfynau iawndal	21
Ymchwiliadau o dan y cynllun (Adrannau 4 a 5) Cynnal ymchwiliadau Terfynau amser Hyforddiant a sgiliau Canfyddiadau'r gweithgorau - adroddiadau interim Cadw adroddiadau ar ymchwiliadau yn ôl Dyletswydd i gynnal ymchwiliadau	27
Cyngor a chymorth o dan y cynllun (Adrannau 7 ac 8) Canfyddiadau'r gweithgorau - adroddiadau interim	34
Strwythur y Cynllun (Adran 9)	38
Proses cwyno ac apelio (Adran 10)	40
Pwerau i wneud Rheoliadau (Adran 11) Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer rheoliadau Dyletswydd i ymgynghori ynglŷn â rheoliadau	40
7. YSTYRIAETHAU ARIANNOL AC YSTYRIAETHAU ADNODDAU O DAN Y CYNLLUN	44

	Tudalen
8. CASGLIAD	47
ATODIAD A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd	51
<p>Nid yw'r cyflwyniadau eu hunain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond maen nhw ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-nhsr/bus-legislation-meas-nhsr-writevid.htm</p>	
Rhestr o dystiolaeth lafar	52
<p>Nid yw'r Cofnod o Drafodion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond mae ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-nhsr-home.htm</p>	
ATODIAD B: Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 4 Hydref 2007	54
ATODIAD C: Ateb y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 10 Hydref 2007	55
ATODIAD D: Argymhellion y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007	60
ATODIAD E: Adroddiadau interim gan y Gweithgorau a sefydlwyd o dan brosiect Gweithio i Wella, Ionawr 2008	63

**Y PWYLLGOR AR Y MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH GWNEUD IAWN AM
GAMWEDDAU'R GIG**

AELODAETH Y PWYLLGOR

Aelod	Plaid wleidyddol
Jonathan Morgan (Cadeirydd)	Ceidwadwyr
Edwina Hart	Llafur
Helen Mary Jones	Plaid Cymru
Val Lloyd	Llafur
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Ymagwedd y pwyllgor

1. Mewn llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law, cafwyd sylwadau ar faterion manwl ynglŷn â gwneud iawn sy'n fwy perthnasol ar gyfer drafftio'r rheoliadau o dan y Mesur a hoffem annog y Gweinidog i gymryd y rhain i ystyriaeth wrth baratoi rheoliadau at ddibenion ymgynghori (paragraff 10).

Diffyg gwybodaeth

2. Mae rhai meysydd o hyd lle'r ydym yn pryderu am y diffyg gwybodaeth a gawsom i'n helpu i ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac rydyn ni'n nodi'r rhain mewn manau eraill yn yr adroddiad. Byddem yn disgwyl i'r Gweinidog ymdrin â'r meysydd penodol hyn yn y ddadl yn ystod Cyfnod 1 er mwyn i holl Aelodau'r Cynulliad ffurfio barn wybodus ar yr egwyddorion cyffredinol cyn i waith craffu manylach gael ei wneud ar y Mesur (paragraff 19).

Natur Fframweithiol y Mesur

3. Gan mai dyma'r Mesur Cynulliad cyntaf i bwyllgor wneud gwaith craffu arno yng Nghyfnod 1, rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG wedi ennyn rhywfaint o feirniadaeth ar sail ei natur fframweithiol. Nid yw'n anarferol i ddeddfwriaeth roi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion. Er hynny, pan fydd Mesurau yn y dyfodol yn arddel ymagwedd debyg drwy roi pwerau helaeth i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, rydym yn argymhell y dylid cael gyda nhw adroddiad manylach ar y polisi y tu ôl i'r ddeddfwriaeth, er mwyn caniatáu i'r Cynulliad wneud gwaith craffu pwylllog. Ar ben hynny, dylai'r polisi bob amser fod wedi'i ddatblygu cyn i unrhyw Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno yn y Cynulliad (paragraff 31).

Perthynas y trefniadau gwneud iawn â'r weithdrefn gwyno

4. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog sicrhau bod yna eglurder llwyr yn y rheoliadau o ran sut y bydd y weithdrefn gwyno a'r Cynllun Datrys Cyflym yn gweithio ochr yn ochr ag unrhyw drefniadau gwneud iawn (paragraff 42).
5. Rydym yn argymhell y dylid cael mesurau diogelu digonol hefyd, wedi'u hadeiladu i mewn i'r trefniadau gwneud iawn, i sicrhau na fydd cleifion na chân nhw ddyfarniad ariannol yn teimlo bod eu cwyn wedi bod yn llai dilys na chlaf a gafodd ddyfarniad ariannol (paragraff 43).

Cynlluniau dim bai

6. O gofio'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â chynlluniau wedi'u seilio ar ddim bai, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylid ymchwilio i hyn ar hyn o bryd. Byddai angen gwneud llawer iawn mwy o waith ac ymchwil cyn penderfynu ar unrhyw beth heblaw cynllun gwneud iawn wedi'i seilio ar gamwedd (paragraff 52).

Cwmpas y Cynllun Gwneud iawn (Adrannau 1 a 2)

Cynnwys gofal sylfaenol o dan y cynllun gwneud iawn

7. Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i ehangu'r trefniadau gwneud iawn i gynnwys gofal sylfaenol, rydym yn argymhell y dylid cynnal arfarniad llawn ar sut mae'r cynllun yn gweithredu mewn gofal eilaidd. Rydym yn argymhell hefyd y dylai'r Gweinidog ymgynghori'n llawn ac yn drylwyr â'r rhanddeiliaid ynghylch unrhyw fwrriad i ehangu'r cynllun i gynnwys gofal iechyd sylfaenol a hynny cyn i'r rheoliadau perthnasol gael eu drafftio (paragraff 71).

Yr effaith ar weithwyr iechyd proffesiynol

8. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog bwysu a mesur y maes hwn yn ofalus gan sicrhau bod mesurau diogelu digonol yn cael eu cynnwys yn y trefniadau er mwyn sicrhau bod gan staff y GIG hyder yn y systemau a'u bod wedi'u diogelu rhag canlyniadau anfwriadol (paragraff 81).

Terfynau iawndal

9. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r terfynau iawndal gael eu pennu mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y Mesur er mwyn sicrhau bod yna hyblygrwydd yn y cynllun (paragraff 88).
10. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth fanylach i lefel y terfyn uchaf ar gyfer iawndal ac, yn benodol, i'r farn a gynigiwyd ynghylch y perygl o bennu terfyn rhy isel a allai olygu bod rhai achosion yn syrthio y tu allan i'r cynllun gwneud iawn, heb fod yn gymwys o bosibl i gael arian cyhoeddus i fynd yn eu blaen drwy'r llysoedd. Bydd y terfyn uchaf ar gyfer iawndal yn effeithio ar fath a nifer yr achosion a fydd yn gymwys ar gyfer trefniadau gwneud iawn a dyma faes lle y byddem yn disgwyl i'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth ar gyfer dadl Cyfnod 1 (paragraff 89).

Ymchwiliadau o dan y cynllun (Adrannau 4 a 5)

11. Mae'r broses ymchwilio yn allweddol ar gyfer llwyddiant unrhyw drefniadau gwneud iawn ac rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod y dystiolaeth fanwl yr ydym wedi'i chael ar y broses ymchwilio yn cael ei chymryd i ystyriaeth gan y Gweithgor ac wrth i'r rheoliadau perthnasol gael eu llunio (paragraff 113).

12. Rydym o'r farn bod angen terfynau amser interim er mwyn sicrhau bod gan gleifion a staff y GIG hyder mewn unrhyw drefniadau gwneud iawn. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r terfynau amser hyn gael eu nodi mewn rheoliadau yn y dyfodol o dan y Mesur. Er hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Mesur gael ei ddiwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer terfynau amser mewn perthynas â phroses yr ymchwiliad (paragraff 114).

Cadw adroddiadau ar ymchwiliadau yn ôl

13. Rydym yn argymhell y dylai'r Mesur gael ei gryfhau i ragnodi y bydd adroddiadau ar ymchwiliadau yn cael eu datgelu fel rheol ac mai o dan amgylchiadau eithriadol yn unig y caniateir eu cadw'n ôl. Dylai mesurau diogelu gael eu cynnwys yn y Mesur hefyd i sicrhau y dylai unrhyw benderfyniad i gadw adroddiad ar ymchwiliad yn ôl gael ei adolygu gan gorff sy'n annibynnol ar y sefydliad GIG sydd o dan sylw yn yr achos (paragraff 124).

Dyletswydd i gynnal ymchwiliadau

14. Rydym yn dal yn bryderus ynghylch y diffyg manylion am sut y bydd y darpariaethau'n gweithio ac rydym yn galw ar y Gweinidog i egluro yn y rheoliadau ble y bydd y ddyletswydd i gynnal ymchwiliadau yn syrthio a sut y caiff ei gorfodi a'i monitro. Byddem yn disgwyl i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn ar gyfer dadl Cyfnod 1 (paragraff 131).

Cyngor a chymorth o dan y cynllun (Adrannau 7 ac 8)

15. Rydym yn cydnabod mor bwysig yw darparu cyngor a gwybodaeth glir a chryno i gleifion o dan y trefniadau gwneud iawn ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu cyngor a chymorth yn rhad ac am ddim fel rhan o'r cynllun gwneud iawn (paragraff 153).
16. Rydym yn nodi canfyddiadau interim y gweithgorau ar y mater hwn ac yn galw ar y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am sut y bydd y darpariaethau hyn yn gweithio ar gyfer y ddadl yng Nghyfnod 1. Yn benodol, rydym yn gofyn am eglurhad gan y Gweinidog ynghylch pa bryd y bydd cyngor a chymorth ar gael o dan y cynllun, pwy fydd yn rhoi'r cyngor a'r cymorth hwnnw a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu monitro er mwyn sicrhau ymagwedd gyson (paragraff 154).

Strwythur y Cynllun (Adran 9)

17. Rydym yn argymhell y dylai'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer rheolaeth gyson a chanllawiau ar gyfer y trefniadau gwneud iawn (paragraff 162).

Pwerau i wneud Rheoliadau (Adran 11)

18. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i dynhau ar y gweithdrefnau ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Mesur ac rydym yn cefnogi'r cynigion penodol a amlinellwyd gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar gyfer dod â nifer fwy o reoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol (paragraff 173).

Dyletswydd i ymgynghori ynglŷn â rheoliadau

19. Rydym yn cydnabod ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Er hynny, mae'r dystiolaeth a gawsom yn ategu'n gryf fod angen dyletswydd statudol i ymgynghori ynghylch rheoliadau ac - o gofio'r pwerau eang i wneud rheoliadau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru gan y Mesur hwn - rydym yn argymhell y dylid cael dyletswydd statudol i ymgynghori ar yr holl reoliadau sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol (paragraff 178).

Ystyriaethau ariannol ac ystyriaethau adnoddau o dan y cynllun

20. Rydym yn nodi argymhelliad y Pwyllgor Cyllid na ddylai'r ddadl yng Nghyfnod 1 gael ei chynnal cyn i'r Gweinidog ddarparu asesiad manylach o effaith ariannol y cynllun. Rydym yn cydnabod pryderon y Pwyllgor Cyllid a'r ffaith ei bod yn bwysig bod unrhyw wybodaeth a osodir yn y Cynulliad i gyd-fynd â chynnig deddfwriaeth yn gywir ac yn benodol i Gymru. Rydym wedi cael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yr wybodaeth ariannol angenrheidiol yn cael ei darparu ar gyfer dadl Cyfnod 1 (paragraff 191).

Casgliad

21. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r Mesur Cynulliad arfaethedig cyntaf hwn ac yn cytuno'n unfrydol â'i egwyddorion cyffredinol, ar yr amod bod yr wybodaeth ychwanegol a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael ei chyflwyno gan y Gweinidog ar gyfer dadl Cyfnod 1.

22. Rydym yn cydnabod nad yw'r broses sydd wedi'i harddel ar gyfer y Mesur arfaethedig cyntaf hwn yn un a fydd o reidrwydd yn gosod cynsail ar gyfer Mesurau'r dyfodol. Mae'r Mesur arfaethedig yn deillio o Ddeddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006 ac, oherwydd hynny, roedd llawer o'r gwaith polisi yn dal i gael ei ddatblygu tra oedden ni'n gwneud ein gwaith craffu. Roedd hynny'n ei gwneud yn anos i'r rhanddeiliaid ffurfio barn ar rai o'r egwyddorion cyffredinol.

23. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr wybodaeth a roddwyd gan y Gweithgorau, sydd wedi helpu'n hystyriaethau. Er hynny, rydym o'r farn y bydd angen pennu cryn dipyn yn fwy o fanylion terfynol cyn y bydd modd i reoliadau o dan y Mesur arfaethedig gael eu paratoi.

24. Rydym yn disgwyl y bydd Mesurau yn y dyfodol yn cael eu trafod mewn ffordd wahanol. Rydym o'r farn bod rhaid i fanylion y polisi y tu ôl i gynnig arfaethedig gael eu pennu'n derfynol cyn i Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cynulliad. Bydd hyn yn caniatáu mesur helaethach o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allanol o ran a yw'r deddfwriaeth yn bodloni'r amcanion polisi. Bydd hefyd yn caniatáu i'r pwyllgor deddfwriaeth perthnasol wneud gwaith craffu priodol a manwl ar y cynigion (paragraffau 192-195).

1. RHAGYMDRODD

1. Cyflwynodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 ar 2 Gorffennaf 2007 gan wneud datganiad yn y cyfarfod llawn drannoeth.¹ Cafodd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) ei sefydlu drwy benderfyniad gan y Cynulliad ar 4 Gorffennaf.
2. Rôl y Pwyllgor yw “ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt” (Rheol Sefydlog 23.23); gwneud gwaith craffu o dan Gyfnod 1 o broses deddfu'r Cynulliad.

Cyflwyno adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol

3. Dyma'r cyntaf o Bwyllgorau'r Cynulliad i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol Mesur Cynulliad arfaethedig a buom yn ystyried ein hymagwedd at y gwaith hwn yn ofalus. Yn ystyriaeth Cyfnod 1, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu ar gyfer mesur o waith craffu nad yw ar gael wrth graffu ar Fesurau yn San Steffan.
4. Oherwydd hynny, rydym wedi ceisio darganfod a yw egwyddorion cyffredinol y darn penodol o ddeddfwriaeth ger ein bron yn gadarn ac rydym wedi cymryd bod ystyried yr egwyddorion cyffredinol yn golygu mwy na thrafodaeth frysiog a yw penderfyniad i ddeddfu mewn maes polisi cyhoeddus bras yn un dilys neu beidio. Yn ei adroddiad *The Legislative Process*² barnodd Pwyllgor Moderneiddio Tŷ'r Cyffredin mai gwneud “better laws by improving the scrutiny of bills and drawing the wider public more effectively into the Parliamentary process”³ oedd diben gwaith craffu cyn deddfu. Er nad craffu cyn deddfu yw'n hystyriaethau ninnau (o gofio bod y ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno eisoes) rydym yn credu bod y farn hon yr un mor gymwys i ystyriaeth Cyfnod 1 ar Fesur arfaethedig.

¹ Cofnod y Trafodion, Cofnod y Cyfarfodydd Llawn, 3 Gorffennaf 2007, sydd ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=55675&ds=7/2007#rhif3>. (DS: oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion yn gyfeiriadau at y Cofnod o Drafodion y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru).)

² Y Pwyllgor Dethol ar Foderneiddio Tŷ'r Cyffredin: The Legislative Process, First Report of Session 2005-06 (HC 1097)

³ Ibid., paragraff 26

2. Y CEFNDIR

5. Cafodd yr angen am drefniadau gwneud iawn mwy effeithiol a thecach ei nodi yn *Creu'r Cysylltiadau*⁴ yn 2004, a nododd y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn *Cynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd*⁵ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2006.

6. Mae'r pwerau i'r Cynulliad ddeddfu yn y maes hwn yn deillio o adran 17 o Ddeddf Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2006⁶ a roddodd bwerau i wneud rheoliadau i'r Cynulliad fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Wedyn troswyd y pwerau hynny yn bwerau i wneud Mesurau drwy Orchymyn. Nod y Mesur yw darparu system o iawn teg ar gyfer cleifion y GIG yng Nghymru; proses gyflymach a llai gwrthwynebus lle mae esgeulustod wedi'i sefydlu a lle mae'r iawndal yn debyg o fod yn gymharol isel o ran ei werth. Bydd yn rhoi cyfle i gleifion gael iawndal heb droi at achos cyfreithiol.

7. Mae trefniadau gwneud iawn yn rhan o becyn cyffredinol o ddiwygiadau a gynigiwyd gan y Gweinidog sy'n cynnwys gweithdrefn gwyno y GIG. Rhagwelir y bydd y rhain, gyda'i gilydd, yn becyn holistig o rwymedïau gan gynnwys ymchwilio, ymddiheuro, camau adfer ac mewn rhai achosion iawndal ariannol i gleifion sy'n cael triniaeth neu wasanaethau gan y GIG. Mae gwaith ar y diwygiadau hyn yn cael ei symud yn ei flaen gan brosiect Gweithio i Wella. Mae cymhellion polisi allweddol y diwygiadau arfaethedig wedi'u hamlinellu ym Memorandwm Esboniadol y Mesur.⁷

⁴ Gellir gweld polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Creu'r Cysylltiadau*, yn: <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/?lang=cy>

⁵ Gellir gweld *Cynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru* yn: <http://new.wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/qualitystandardsandsafety/QuIP/?lang=cy>

⁶ Gellir gweld *Deddf Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2006*, Pŵer Fframwaith i Gymru (adran 17), yn: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060044_en_1#pb2-l1g17

⁷ Memorandwm Esboniadol y Mesur Arfaethedig ynghylch *Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007*, paragraff 3.4

3. YMAGWEDD Y PWYLLGOR

8. Ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang, gan gyhoeddi galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig a chymryd tystiolaeth ar lafar gan amryw o sefydliadau a fydd yn ymwneud â threfniadau gwneud iawn. Cawsom dystiolaeth gan fwy na 30 o sefydliadau ac unigolion ac mae rhestr o'r rhai a gyfrannodd at ein gwaith wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Bu'n rhaid inni wneud ein gwaith craffu mewn amser cymharol fyr ac rydym yn ddiolchgar i'r rhai a roddodd dystiolaeth ar fyr rybudd. Mae eu cyfraniad, at ein gwaith ni ac at yr ystyriaeth ar y Mesur arfaethedig, wedi bod yn amhrisiadwy.

9. Mae'n anochel bod y dystiolaeth a ddaeth i law yn adlewyrchu'r amrywiaeth mawr o fuddiannau sydd gan y gwahanol grwpiau sy'n ymwneud â maes gwneud iawn; cleifion, Ymddiriedolaethau a rheolwyr y GIG, gweithwyr iechyd proffesiynol a'u cyrff cynrychioliadol, a'r rhai sy'n ymwneud â darparu cyngor a chanllawiau i gleifion. Wrth gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig, rydym wedi cymryd i ystyriaeth safbwyntiau pob un o'r grwpiau penodol sy'n ymwneud â'r maes hwn ac wedi ceisio adlewyrchu'r materion allweddol mewn perthynas â chynnwys y Mesur, gan arddel ymagwedd sydd wedi'i seilio ar gonsensws.

10. Mewn llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law, cafwyd sylwadau ar faterion manwl ynglŷn â gwneud iawn sy'n fwy perthnasol ar gyfer drafftio'r rheoliadau o dan y Mesur a hoffem annog y Gweinidog i gymryd y rhain i ystyriaeth wrth baratoi rheoliadau at ddibenion ymgynghori.

11. Mae'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiadau ar y Mesur arfaethedig hefyd a rhoes cadeiryddion y ddau Bwyllgor dystiolaeth ar lafar i helpu i fwydo'n hadroddiad ninnau.⁸

⁸ Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid, FIN(3)-07-R02: Adroddiad ar y Mesur ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007, ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6827-e.pdf>; ac mae adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007, ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/slc_3_-10-07_report_on_nhs_redress_measure_e.pdf. Rhoes cadeiryddion y Pwyllgorau dystiolaeth i'r PBwyllgor ar y Mesur: Cofnod y Trafodion, paragraffau [2]-[40], 6 Tachwedd 2007.

4. Y CEFNDIR POLISI

Yr angen am ddeddfwriaeth

12. Amlinellodd tystion y problemau ynglŷn â'r system gyfredol ar gyfer gwneud iawn. Dywedodd Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA) wrthym eu bod yn credu bod y broses gyfreithiol yn straen ar bawb a'i bod weithiau yn gallu peri niwed i weithwyr iechyd proffesiynol. Dywedodd yr AvMA:

“People who have been affected by clinical errors in the NHS sometimes find it very difficult to find out the full facts about what happened; to be assured that steps will be taken to reduce the risk of similar errors affecting other people; and to obtain compensation for injuries or losses that they have suffered as a result of sub-standard care in the NHS.”⁹

13. Dywedwyd wrthym hefyd am y problemau diwylliannol yn y GIG sy'n arwain at ymagwedd wrthwynebus a chanlyniad gwael i'r cleifion. Cyfeiriodd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru at yr anawsterau o ran sicrhau'r dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau, gan ddatgan na fyddai gwasanaethau'r GIG ar ddechrau ymchwiliad yn awyddus i ddatgan eu rhwymedigaeth a bod hynny yn broblem ddiwylliannol o bwys.¹⁰

Diffyg gwybodaeth

14. Yn y dystiolaeth, clywsom fod yna gefnogaeth eang i'r angen am drefniadau gwneud iawn fel y'u cynigiwyd yn y Mesur; bod angen system gyflymach, lai gwrthwynebus i'r staff a'r cleifion, yn y sector gofal eilaidd. Cafwyd gwrthwynebiad i ehangu'r cynllun i ofal sylfaenol ac mae'r pryderon manwl ynglŷn â hyn wedi'u hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

15. Er gwaethaf cefnogaeth gyffredinol ar gyfer trefniadau gwneud iawn, mynegodd nifer arwyddocaol o dystion anhawster wrth asesu a fyddai'r Mesur yn gwireddu'r amcanion polisi a gwelodd llawer na allent wneud asesiad gwrthrychol o oblygiadau'r Mesur oherwydd y diffyg manylion. Cafwyd rhywfaint o bryder hefyd nad oedd fawr o ddarpariaethau o sylwedd yn y Mesur.

16. Cyflwynodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar y Mesur ar 22 Hydref 2007 gan fynegi pryder am y diffyg gwybodaeth ar gyfer asesu cost y Mesur a nodi bod gwaith yn dal i gael ei wneud.¹¹ Barn y Pwyllgor oedd na allai wneud asesiad dibynadwy o effaith y Mesur arfaethedig ar Wneud iawn am Gamweddau'r GIG a daeth i'r casgliad nad

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR19

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [53], 2 Hydref 2007

¹¹ Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid, FIN(3)-07-R02: Adroddiad ar y Mesur ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007, ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6827-e.pdf>.

oedd ganddo fawr o ddewis ond argymell na ddylai'r drafodaeth Cyfnod 1 gael ei hamserlennu nes i'r Aelodau gael cyfle i ystyried amcangyfrif manylach o'r costau dan sylw. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrth y Pwyllgor y byddai adroddiad interim ar y costau ar gael erbyn diwedd 2007.¹² Mae rhagor o fanylion ar oblygiadau ariannol y Mesur wedi'u nodi yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

17. Ysgrifenasom at y Gweinidog ar 4 Hydref 2007¹³ i amlinellu'n pryder ei bod yn ymddangos bod cryn dipyn o waith eto i'w wneud ar fanylion y cynllun gwneud iawn arfaethedig, gan ofyn am ddisgrifiad manwl o'r gwaith a oedd wedi'i wneud mor belled. Rhoddodd ymateb y Gweinidog¹⁴ wybodaeth am dri gweithgor a oedd yn cymryd rhan ym mhrosiect Gweithio i Wella, eu haelodaeth a'u cylch gorchwyl:

- Mae'r Gweithgor Cyngor Cyfreithiol yn anelu at roi adroddiad interim i'r Gweinidog erbyn canol Ionawr 2008;
- Mae'r Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau yn anelu at roi adroddiad interim erbyn canol Ionawr 2008 a gwneud argymhellion terfynol erbyn mis Mai 2008; ac
- ni fydd y Gweithgor Eiriolaeth a Chymorth yn dechrau ar ei waith tan fis Tachwedd 2007, gan ganiatáu iddo gymryd gwaith y gweithgorau eraill i ystyriaeth.

18. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd hi'n disgwyl cyflwyno rheoliadau tan o leiaf ganol y ffordd drwy 2008 ond cynigiodd roi adroddiadau interim y gweithgorau inni ym mis Ionawr 2008 i helpu i hwyluso'n hystyriaethau ar yr egwyddorion cyffredinol. Daeth yr adroddiadau hyn¹⁵ i law ar ddiwedd ein hystyriaeth ar y Mesur arfaethedig ac er ein bod wedi adlewyrchu'r deunyddiau ychwanegol yn ein hadroddiad ninnau lle bo'n briodol, nid ydym wedi llwyddo i brofi'r cynigion manwl gyda thystion.

19. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd canfyddiadau'r gweithgorau wrth fwydo'r rheoliadau a gyflwynir o dan y Mesur ac yn enwedig wrth lunio canllawiau a fydd yn ategu'r trefniadau gwneud iawn pan fydd y rheiny'n dod i mewn. **Mae rhai meysydd o hyd lle'r ydym yn pryderu am y diffyg gwybodaeth a gawsom i'n helpu i ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac rydyn ni'n nodi'r rhain mewn manau eraill yn yr adroddiad. Byddem yn disgwyl i'r Gweinidog ymdrin â'r meysydd penodol hyn yn y ddadl yn ystod Cyfnod 1 er mwyn i holl Aelodau'r Cynulliad ffurfio barn wybodus ar yr egwyddorion cyffredinol cyn i waith craffu manylach gael ei wneud ar y Mesur.**

¹² Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, paragraff [80], 20 Medi 2007

¹³ Atodiad B

¹⁴ Atodiad C

¹⁵ Atodiad E

5. SYLWADAU CYFFREDINOL AR Y MESUR

Natur Fframweithiol y Mesur

20. O ran ei natur, un sy'n galluogi yw'r Mesur arfaethedig ac mae wedi'i ddisgrifio fel Mesur "sgerbwd" neu "fframwaith" gan lawer o dystion. Mae'n caniatáu i fanylion y cynllun gwneud iawn gael eu gwneud drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru a dadleuwyd bod hyn yn cyfyngu ar gyfle'r Cynulliad i wneud gwaith craffu.

21. Mae'r pwerau i ddeddfu yn y maes hwn yn deillio o'r pwerau fframwaith a geir yn adran 17 o Ddeddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006 ac yn sgil deddfu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd y pŵer hwnnw yn nwylo Gweinidogion Cymru. Wedyn troswyd y pwerau yn bwerau i wneud Mesurau yn rhinwedd Gorchymyn Trosi¹⁶ yn 2007. Mewnsoododd y Gorchymyn Fater 9.1 ym Maes 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae natur fframweithiol y Mesur i bob pwrpas yn rhoi'r mwyafrif o'r pwerau i wneud cynllun gwneud iawn yn ôl i Weinidogion Cymru.

22. Roedd rhai dystion yn fodlon i Weinidogion Cymru nodi manylion y cynllun mewn rheoliadau, ar yr amod y byddid yn ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid. Gan mai dyma'r Mesur Cynulliad cyntaf, roedd llawer o sefydliadau'n bryderus y byddai'n gosod safon a bod natur fframweithiol y Mesur yn cyfyngu ar y gwaith craffu ac nad oedd yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â'r gymdeithas ddinesig.

23. Dadleuai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) o blaid "more detail to be set out in the Measure rather than to be left to regulations".¹⁷ Er y byddai angen gadael rhywfaint o'r manylion i reoliadau er mwyn sicrhau hyblygrwydd, roedd yr LSC yn cydnabod y dylai darpariaethau ynghylch strwythur y cynllun, cyllid, annibyniaeth cyngor, argaeledd apelau a therfynau amser gael eu diffinio yn y Mesur.

24. Roedd Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) yn ochelgar ynglŷn â gwneud y cynllun drwy reoliadau "because we see that as being ministerial whim".¹⁸ Aethant ymlaen i ddweud "any change that might incur a charge to public money should be decided upon by the whole Assembly rather than by Ministers".¹⁹ Gan mai dyma'r Mesur Cynulliad cyntaf, roedd Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yng Nghymru yn pryderu y byddai'n gosod safon; "Powers are now passing to Ministers, rather than the Assembly as a whole". Aethant yn eu blaen: "this Measure will make powers that potentially give Ministers unlimited discretion".²⁰

¹⁶ Gellir gweld Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007, yn:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/uksi_20070910_en_1

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR11

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [159], 11 Hydref 2007

¹⁹ Ibid., paragraff [161]

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR10

25. Lle cyflwynodd tystion sylwadau ar y safle cyfansoddiadol yn fwy penodol, roedden nhw yn fras yn erbyn natur fframweithiol y Mesur. Cyfeiriodd Cymru Yfory at y pryderon a oedd wedi'u mynegi gan Bwyllgor Pwerau Datganoledig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi wrth i'r Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG fynd drwy'r Senedd. Ym marn Pwyllgor yr Arglwyddi, pe bai Cymal 17 o'r Mesur, a oedd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad i wneud rheoliadau ar gyfer cynllun gwneud iawn, yn cael eu rhoi i Weinidog mewn perthynas â Lloegr, "it would be inappropriate, even if subject to affirmative procedure".²¹ Nododd y Pwyllgor fod rhai o ddarpariaethau'r Mesur mewn perthynas â Chymru yn mynd ymhellach na'r trefniadau mewn perthynas â Lloegr.

26. Roedd llawer o dystion yn gofidio nad oedd y Mesur yn manylu'n ddigonol ar sut y dylai'r cynllun weithredu ac awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai adroddiad llawn ar y polisi gael ei ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad gyda'r Mesur, a thestun llawn y rheoliadau arfaethedig.²² Dadleuai Cymru Yfory:

"The Assembly is entitled to expect the Assembly Government to have, and set out, clear plans for the use of powers to be conferred on it, especially when the powers proposed to be conferred are so broad."²³

27. Er gwaethaf barn gref yn erbyn natur fframweithiol y Mesur, roedd barn rhai tystion yn wahanol, a chyflwynwyd sylwadau ar y ffaith y byddai gwaith drafftio bras y Mesur a darparu llawer o fanylion yn y rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd, yn enwedig felly wrth i'r cynllun ddatblygu. Dadleuai Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru hefyd y byddai rheoliadau yn caniatáu i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru arddel "a single goal, to provide a standardised, consistent approach".²⁴

28. Eglurodd y Gweinidog i Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol nad oedd yn credu y byddai natur fframweithiol y Mesur yn gosod cysail a bod yna resymau clir bod Mesur fframwaith yn briodol mewn perthynas â'r cynllun gwneud iawn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r achos o blaid natur fframweithiol y Mesur gan esbonio bod manylion y polisi'n cael eu datblygu ac:

"Oherwydd hyn, mae'r pwerau i wneud rheoliadau a bennir yn y Mesur wedi'u llunio'n eang er mwyn medru talu sylw i ganlyniadau'r gwaith hwn wrth ddrafftio'r rheoliadau."²⁵

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR8

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR31

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR8

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR20

²⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.2

29. Yn ei adroddiad ef ar y Mesur, dywedodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth:

“Mae’r Pwyllgor yn derbyn bod rhesymau dilys pam y mae Mesur ‘Fframwaith’ wedi’i gyfiawnhau yn yr achos hwn. Er hynny, mae o’r farn na ddylai’r ymagwedd sydd wedi’i harddel gan y Mesur Arfaethedig penodol hwn osod cynsail; ac mae’n argymhell bod y Gweinidog yn sicrhau y bydd lefel y gwaith craffu a ddarperir gan y Mesur Arfaethedig mewn perthynas â gwahanol fathau o Reoliadau mor gryf â phosibl.”²⁶

30. Rydym yn ategu barn y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth bod yna resymau dilys i gyfiawnhau Mesur fframwaith yn yr achos hwn ac rydym yn cytuno bod angen gwaith craffu cryf a thrylwyr ar y rheoliadau a fydd yn deillio o’r Mesur. Rydym yn gwneud argymhellion yn hyn o beth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

31. **Gan mai dyma’r Mesur Cynulliad cyntaf i bwyllgor wneud gwaith craffu arno yng Nghyfnod 1, rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau’r GIG wedi ennyn rhywfaint o feirniadaeth ar sail ei natur fframweithiol. Nid yw’n anarferol i ddeddfwriaeth roi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion. Er hynny, pan fydd Mesurau yn y dyfodol yn arddel ymagwedd debyg drwy roi pwerau helaeth i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, rydym yn argymhell y dylid cael gyda nhw adroddiad manylach ar y polisi y tu ôl i’r ddeddfwriaeth, er mwyn caniatáu i’r Cynulliad wneud gwaith craffu pwylllog. Ar ben hynny, dylai’r polisi bob amser fod wedi’i ddatblygu cyn i unrhyw Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno yn y Cynulliad.**

Perthynas y trefniadau gwneud iawn â’r weithdrefn gwyno

32. Soniodd llawr o’r dystiolaeth a ddaeth i law fod angen mwy o eglurder am y berthynas rhwng gweithdrefn gwyno gyfredol y GIG a’r cynllun gwneud iawn arfaethedig. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn sôn y bydd y cynllun gwneud iawn yn “un rhan o gyfres o drefniadau integredig, a fyddai hefyd yn cynnwys gweithdrefn gwynion y GIG”²⁷ ond heb roi mwy o wybodaeth na hynny.

33. Heblaw dyfarniad iawndal, meddai’r Undeb Amddiffyn Meddygol (MDU)²⁸ wrthym, roedd y prif amcanion o dan y cynllun eisoes yn rhan o’r weithdrefn gwyno ac efallai y byddai’n well gwireddu amcanion y Gweinidog drwy wella’r system gwyno, a chaniatáu i’r ffocws barhau i gael ei roi ar gwynion yn hytrach nag iawndal. Doedd yr Undeb ddim o blaid cynllun a oedd yn fersiwn di-fwlch o’r weithdrefn cwynion a hawliadau. Dadleuai’r Undeb fod system ac iddi iawndal ariannol yn nod posibl yn agored i risg wirioneddol y gallai claf sy’n dechrau yn y system gyda chwyn deimlo nad

²⁶ Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth: Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau’r GIG (Cymru) 2007 (Tachwedd 2007), paragraff 13

²⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR23

yw ei gŵyn wedi'i drafod o ddifrif oni bai ei fod yn sicrhau iawndal ariannol. Ychwanegodd yr undeb "if the endpoint were to be money, it is likely that a new group of complainants would enter the system... those whose motivation would be to get compensation".²⁹ Awgrymodd yr Undeb y gellid cadw'r ddwy broses ar wahân gan ddefnyddio'r adroddiadau a geid yn yr ymchwiliad i gŵyn i fwydo unrhyw hawliad am iawndal ariannol.

34. Ategwyd y farn hon yn y cyflwyniad a wnaed ar y cyd gan y Gymdeithas Amddiffyn Meddygol (MPS) a Dental Protection Limited (DPL), a ddywedodd y dylai'r ddwy system aros ar wahân ac yn neilltuol. Dadleuai'r rhain y dylid defnyddio'r naill system ar ôl y llall, gan ddefnyddio'r system gŵynion i gasglu ffeithiau'r achos; byddai'r claf yn rhydd wedyn i geisio sicrhau iawn neu i ymglyfreitha drwy'r llysoedd. Daethant i'r casgliad hwn: "the complaints procedure should only be a route into the redress scheme if harm has occurred that requires a remedy beyond an explanation or apology".³⁰

35. Mynegodd yr AvMA farn arall, gan honni bod y broses gyfredol yn anfon pobl ar hyd un llwybr os ydyn nhw am gael esboniad ac ymddiheuriad ac ar hyd llwybr arall os ydyn nhw am gael iawndal ariannol hefyd. Dadleuai'r AvMA fod y system gyfredol yn arwain Ymddiriedolaeth GIG i ystyried a allan nhw gynnig amddiffyniad credadwy yn erbyn hawliad yn hytrach nag edrych i weld "whether they should have prevented this incident from happening in the first place, and how".³¹ Daeth yr AvMA i'r casgliad y dylai'r broses gwyno a'r trefniadau gwneud iawn gael eu hintegreiddio.

36. Yn ychwanegol, roedd Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru (WHLS)³² yn gofidio y câi penderfyniadau eu gwneud ar drefniadau gwneud iawn cyn i'r cynnod peilot ar gyfer y Cynllun Datrys Cyflym gael ei gloriannu. Cafodd y Cynllun Datrys Cyflym ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n anelu at fod yn weithdrefn hawlio er mwyn datrys yn gyflym hawliadau esgeulustod clinigol yn erbyn Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Mae hawliadau rhwng £5,000 a £15,000 yn gymwys ar gyfer y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun hefyd yn annog Ymddiriedolaethau GIG Cymru i roi ymddiheuriadau hyd yn oed os gwelir maes o law fod y driniaeth feddygol a gafwyd wedi bod yn is na'r safon angenrheidiol.

37. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Cynllun Datrys Cyflym yn parhau, gan gynnig elfen o ddewis i'r cleifion, ond nid oedd yn glir i ni sut y byddai'r Cynllun Datrys Cyflym yn ffitio i'r broses ac a fyddai ei angen pan fyddai'r cynllun gwneud iawn wedi'i sefydlu.

38. Mae'r Cynllun Datrys Cyflym yn cael ei gloriannu ar hyn o bryd a chafodd y cynllun mo'i ystyried yn fanwl gan y Gweithgor Ymchwiliadau a

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [11], 25 Hydref 2007

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR24

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [57], 25 Hydref 2007

³² Ibid., paragraff [117]

Phrosesau, heblaw bod y Gweithgor wedi cydnabod y byddai'n ddewis ychwanegol i gleifion os byddai'n parhau.

39. Nid yw'n glir o'r Mesur nac o'r Memorandwm Esboniadol beth fydd y berthynas rhwng gweithdrefn gwyno a'r cynllun gwneud iawn arfaethedig. Er hynny, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn credu y dylai'r broses gwyno a'r trefniadau gwneud iawn gael eu hintegreiddio, gan gynnig ymagwedd ddi-fwlch i'r cleifion.

40. Ym marn y Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau "Investigation processes for complaints, claims and patient safety incidents can and should be aligned, with the basic approach to the investigation being to 'do it once, do it early and do it well'".³³ Mae'r Gweithgor yn rhag-weld un ymchwiliad a allai arwain wedyn at nifer o opsiynau ar gyfer rhwymedi lle byddai hynny'n briodol, a lle byddai rhwymedigaeth mewn camwedd wedi'i nodi, gallai hynny olygu iawn o dan y cynigon yn y Mesur, y Cynllun Datrys Cyflym (os bydd yn parhau), neu'r llwybr ymglyfreitha traddodiadol.

41. Rydym yn derbyn y ddadl y dylai'r weithdrefn gwyno ac unrhyw drefniadau gwneud iawn gael eu hintegreiddio er mwyn sicrhau eu bod yn darparu canlyniad cadarnhaol i'r cleifion ac i'r gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Rydym yn nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn adroddiad y Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau ynghylch cysoni'r prosesau ymchwilio a byddem yn disgwyl gweld llawer mwy o fanylion yn eu hadroddiad terfynol i fwydo'r gwaith i ddrafftio'r rheoliadau.

42. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog sicrhau bod yna eglurder llwyr yn y rheoliadau o ran sut y bydd y weithdrefn gwyno a'r Cynllun Datrys Cyflym yn gweithio ochr yn ochr ag unrhyw drefniadau gwneud iawn.

43. Rydym yn argymhell y dylid cael mesurau diogelu digonol hefyd, wedi'u hadeiladu i mewn i'r trefniadau gwneud iawn, i sicrhau na fydd cleifion na chân nhw ddyfarniad ariannol yn teimlo bod eu cwyn wedi bod yn llai dilys na chlaf a gafodd ddyfarniad ariannol.

Cynlluniau dim bai

44. Dim ond os oes rhwymedigaeth gymwys mewn camwedd y mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun gwneud iawn. Yn ystod y datganiad yn y cyfarfod llawn ar y Mesur arfaethedig ar 3 Gorffennaf 2007³⁴ gofynnodd rhai Aelodau a ddylai Llywodraeth y Cynulliad geisio pwerau ehangach er mwyn ei galluogi i gyflwyno cynllun 'dim bai'. Gofynasom ninnau gwestiwn penodol mewn perthynas â hyn hefyd wrth inni ymgynghori.

³³ Atodiad E

³⁴ Cofnod y Trafodion, Cofnod y Cyfarfodydd Llawn, 3 Gorffennaf 2007, sydd ar gael yn: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=55675&ds=7/2007#rhif3>

45. Dywedwyd wrthym y gallai'r ymadrodd 'dim bai' fod ychydig yn anaddas gan fod yna amrywiaeth mawr o gynlluniau ledled y byd sydd yn aml yn cael eu disgrifio fel cynlluniau 'dim bai', ond at ei gilydd mae pob un yn defnyddio rhyw fath o asesiad neu brawf i ddarganfod a ddylai iawndal gael ei dalu mewn perthynas â digwyddiad.

46. Barn gymysg a gafwyd o ran a ddylai'r Cynulliad geisio rhagor o bwerau i gyflwyno cynllun dim bai ac yn gyffredinol roedd sylwadau'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori braidd yn gyferbyniol.

47. Roedd y BMA yn gryf o blaid cynllun dim bai, gan ddadlau bod y gweithdrefnau presennol, wedi'u seilio ar gamwedd, yn dinistrio'r "proper relationship between patient and doctor, introducing a confrontational element, totally foreign to the mutual trust which should exist".³⁵

48. Ategwyd y farn hon gan yr AvMA a ddywedodd "restricting eligibility for redress under the scheme to cases that would qualify as a liability in tort would be a huge wasted opportunity".³⁶ Dadleuai'r AvMA na fyddai cadw rhwymedigaeth mewn camwedd fel y prawf i gymhwysu ar gyfer iawn yn symud pethau fawr iawn yn eu blaen o ble maen nhw nawr,³⁷ gan ddadlau o blaid "avoidability test" a esbonnir ym mharagraff 78.

49. Rhoddodd yr Undeb Amddiffyn Meddygol fanylion cynhwysfawr am yr ystyriaethau ynghylch cyflwyno cynllun dim bai ond daeth i'r casgliad canlynol: "there may be legal difficulties... in attempting to provide compensation on a no-fault basis for a small and clearly defined sector of society".³⁸ Er hynny, roedd yr Undeb o blaid cyflwyno cynllun o'r fath, ledled y DU, ar gyfer babanod sydd â niwed niwrolegol.

50. Nid oedd y Gymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol o blaid cynllun dim bai a chyfeiriodd Hutton's solicitors³⁹ at adroddiad y Prif Swyddog Meddygol *Making Amends* a ddaeth i'r casgliad na ellid fforddio cynllun 'dim bai'.

51. P'un a oedden nhw o blaid symud at gynllun 'dim bai' neu beidio, cydnabu'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau y byddai angen gwneud llawer mwy o waith ymchwil cyn symud oddi wrth brawf o rwymedigaeth mewn camwedd.

52. O gofio'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â chynlluniau wedi'u seilio ar ddim bai, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylid ymchwilio i hyn ar hyn o bryd. Byddai angen gwneud llawer iawn mwy o waith ac ymchwil cyn penderfynu ar unrhyw beth heblaw cynllun gwneud iawn wedi'i seilio ar gamwedd.

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR5

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR19

³⁷ Ibid.

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR23

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR26

6. SYLWADAU PENODOL AR Y MESUR

Cwmpas y Cynllun Gwneud iawn (Adrannau 1 a 2)

53. Mae adran 1 o'r Mesur yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ganiatáu i iawn gael ei ddarparu, os bydd rhwymedigaeth gymwys mewn camwedd yn codi, heb orfod mynd i'r llys. Mae'n nodi'r cyrff a'r personau y bydd unrhyw drefniadau gwneud iawn yn gymwys iddynt fel a ganlyn:

- Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Awdurdod Iechyd Arbennig;
- Gweinidogion Cymru; ac
- unrhyw gorff neu berson sy'n darparu, neu'n trefnu darparu, gwasanaethau yng Nghymru o ganlyniad i drefniant gydag unrhyw un o'r cyrff uchod.

54. Mae hyn yn golygu y gall ymarferwyr cyffredinol, deintyddion, fferyllwyr ac offthalmolegwyr sy'n darparu gofal GIG neu ysbytai annibynnol a gomisiynir i ddarparu gofal fel rhan o'r GIG ysgwyddo rhwymedigaeth, sef y sector gofal cynradd.

55. Mae adran 2 yn nodi'r math o ddarpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei wneud mewn perthynas â chynllun gwneud iawn. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer:

- cynnig iawn;
- esboniad ysgrifenedig;
- ymddiheuriad ysgrifenedig; ac
- adroddiad ar y camau a gymerwyd i atal achosion tebyg rhag codi.

56. Rhaid i drefniadau gwneud iawn beidio â bod yn gymwys i achos sydd eisoes yn destun achos cyfreithiol neu sydd wedi bod yn destun achos cyfreithiol. Fe gaiff unrhyw reoliadau sy'n darparu ar gyfer iawndal ariannol bennu terfyn uchaf ar yr iawndal hwnnw ac os nad oes terfyn uchaf wedi'i bennu mae'n rhaid iddyn nhw bennu terfyn uchaf ar y swm sydd i'w gynnig mewn perthynas â phoen a dioddef. Mae'r adran hon o'r Mesur yn darparu hefyd ar gyfer cynnig iawn ar ffurf triniaeth adferol yn ychwanegol at iawndal ariannol.

57. Ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae'n ymddangos yn glir i ni fod yna groeso i'r trefniadau gwneud iawn i'r graddau y maen nhw'n gymwys i ofal eilaidd ac mewn perthynas â'r math o iawn sydd ar gael o dan y Mesur. Er hynny, fe gawsom dystiolaeth a oedd yn adlewyrchu pryder sylweddol ynghylch cynnwys gofal sylfaenol o dan y cynllun ac ynghylch yr effaith y gallai'r trefniadau gwneud iawn arfaethedig ei chael ar weithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Cynnwys gofal sylfaenol o dan y cynllun gwneud iawn

58. Mae'r Mesur yn galluogi'r cynllun gwneud iawn i fod yn gymwys i'r sector gofal sylfaenol yn ychwanegol at ofal eilaidd. Mae adran 1(5) o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y gwasanaethau iechyd 'cymwys' y bydd y cynllun gwneud iawn yn gymwys iddynt. Does dim cyfyngiad yn cael ei osod ar yr hyn y gallai Gweinidogion Cymru ei gynnwys yn y disgrifiad o 'wasanaethau cymwys'.

59. Er hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y gallai Gweinidogion Cymru benderfynu cyflwyno'r cynllun ar gyfer gofal eilaidd i ddechrau a gohirio'r rheoliadau a fyddai'n ymestyn y cynllun i ofal sylfaenol.⁴⁰ Mae'r Memorandwm yn awgrymu y byddai gohirio felly yn caniatáu rhagor o amser i weithio ar fanylion ymarferol cymhwyso'r cynllun at ofal sylfaenol ac i gynnal y trafodaethau angenrheidiol gyda phroffesiynau'r contractwyr a'u darparwyr yswiriant.⁴¹

60. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth ynghylch cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol o dan y cynllun gwneud iawn. Soniodd rhai o'r ymatebwyr fod angen cysondeb ar draws holl wasanaethau'r GIG, ac roedd eraill o'r farn bod y gweithdrefnau cwyno cyfredol ar gyfer gofal sylfaenol yn gweithio'n dda ac nad oedd angen eu newid.

61. Cyfeiriodd Coleg Brenhinol Nyrsys Cymru (RCN) at fanteision cael un dull sy'n addas i bob achos gan ddatgan: "it would be helpful from the point of view of patients and practitioners, in both primary and secondary care, if a consistent system was applied across the board, so that everybody was informed about the process for raising concerns and complaints".⁴²

62. Pe na bai'r cynllun yn cynnwys gofal sylfaenol, awgrymodd Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg y gallai gael ei weld fel cynllun annheg. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth: "from a patient's perspective, if you believe that you have been the subject of a medical mishap, why should you be treated differently if that happened as a consequence of primary care as opposed to secondary care?".⁴³ Yn yr un modd, roedd yr AvMA yn credu "if you are getting NHS treatment, the man and woman on the street would expect to have the same rights and the same access to redress wherever they were receiving their NHS treatment".⁴⁴

63. Dywedodd nifer o sefydliadau gofal sylfaenol wrthym nad oedden nhw o blaid y cynigion y dylai'r cynllun fod yn gymwys i ofal sylfaenol. Dywedodd BMA Cymru⁴⁵ fod y trefniadau presennol ar gyfer indemniad proffesiynol yn gweithio'n dda ar gyfer gofal sylfaenol ac nad oes fawr ddim

⁴⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.8

⁴¹ Ibid.

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff [29], 16 Hydref 2007

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff [61], 11 Hydref 2007

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff [89], 25 Hydref 2007

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR5

angen newid hyn. Roedd Optometreg Cymru⁴⁶ a'r Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol⁴⁷ yn cytuno, heb weld dim rheswm dros gynnwys optometryddion a fferyllwyr cymunedol yn y cynllun.

64. Cyfeiriodd Dental Protection Limited,⁴⁸ sef cangen ddeintyddol yr MPS, at y ffaith bod triniaeth ddeintyddol yn aml yn gymysgedd o driniaeth GIG a thriniaeth breifat, gan awgrymu y gallai hynny beri problemau penodol ar gyfer unrhyw gynllun gwneud iawn wedi'i fwriadu ar gyfer gofal iechyd y GIG yn unig.

65. Er bod yr AvMA yn gwerthfawrogi ymagwedd gyson ar draws yr holl wasanaethau gofal iechyd, roedden nhw'n cydnabod y gellid cael problemau mawr o ran cynnwys gofal sylfaenol, gan ddatgan bod yna lawer o broblemau anodd i'w goresgyn os bwriedir gwireddu hynny. Ond er gwaethaf yr anawsterau hyn, fe ddywedodd yr AvMA:

“we would not want to see the work around moving the scheme into primary care simply shelved to be looked at again at some point in the future. The work should be started now, to identify the issues.”⁴⁹

66. Awgrymodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru⁵⁰ fod yna broblemau mawr ynglŷn â'r drefn lywodraethu glinigol a sut mae'r Mesur arfaethedig yn cydblythu â pherfformiad proffesiynol, ffitrwydd i ymarfer a materion eraill ynglŷn â rheoleiddio proffesiynol. Ym marn BMA Cymru, “without the details of how the scheme will operate in practice it is difficult to see how these issues will be satisfactorily resolved and sufficient safeguards for the practitioner incorporated within the scheme”.⁵¹

67. Cyfeiriodd tystion at y trefniadau ynghylch indemniad penodol ar gyfer meddygon teulu ac awgrymu y gallai'r cynllun gael ei dreialu mewn gofal eilaidd i ddechrau. Roedd nifer o sefydliadau'n credu y gallai treial am dair blynedd helpu i benderfynu a fyddai'n angenrheidiol neu'n briodol dod â chynllun tebyg i mewn ar gyfer gofal sylfaenol.⁵² Galwodd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr⁵³ am gloriannu'r profiad o roi'r cynllun ar waith mewn gofal eilaidd yn ofalus cyn unrhyw strategaeth arall i ymestyn hyd a lled y Mesur.

68. Derbyniodd y Gweinidog fod strwythurau gwahanol ar gael mewn sefydliadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd a mynegodd ei hymrwymiad i ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol mewn gofal sylfaenol ar y materion hyn. Cadarnhaodd ei bod yn bwriadu lansio'r cynllun yn y sector gofal

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR6

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR17

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [111], 11 Hydref 2007, Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR24

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [88], 25 Hydref 2007

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR4

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR5

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR4; Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR23; Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR24

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR18

eilaidd yn gyntaf cyn ystyried a ddylai gael ei ymestyn i gynnwys gofal iechyd sylfaenol. Dywedodd y Gweinidog ei bod heb ystyried eto am faint o amser y dylai cyfnod y treial barhau ond dywedodd na fyddai'r cynllun yn cael ei ehangu fel hyn cyn 2009.

69. Yn eu hadroddiad interim, cydnabu'r Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau y byddai estyn unrhyw drefniadau gwneud iawn i gynnwys gofal sylfaenol yn gofyn am waith ychwanegol gan gynnwys cyfraniad gan y byrddau iechyd lleol ac ymarferwyr gofal sylfaenol. Awgrymodd y Gweithgor y bydd rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r "different indemnity arrangements, the mix of NHS and privately provided care as well as the business-focussed provision of services across the primary care sector ... before this element can be progressed further".⁵⁴

70. Rydym yn pryderu ynglŷn â'r amrywiaeth o faterion sydd wedi'u codi yn y dystiolaeth ynghylch cynnwys gofal iechyd sylfaenol o dan y trefniadau gwneud iawn ac rydym yn croesawu'r sicrwydd a roes y Gweinidog na fydd y cynllun gwneud iawn yn cynnwys gofal sylfaenol ar y dechrau.

71. Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i ehangu'r trefniadau gwneud iawn i gynnwys gofal sylfaenol, rydym yn argymhell y dylid cynnal arfarniad llawn ar sut mae'r cynllun yn gweithredu mewn gofal eilaidd. Rydym yn argymhell hefyd y dylai'r Gweinidog ymgynghori'n llawn ac yn drylwyr â'r rhanddeiliaid ynghylch unrhyw fwriad i ehangu'r cynllun i gynnwys gofal iechyd sylfaenol a hynny cyn i'r rheoliadau perthnasol gael eu drafftio.

Yr effaith ar weithwyr iechyd proffesiynol

72. Mae adran 1(4)(a) o'r Mesur yn darparu bod rhaid i rwymedigaethau mewn camwedd fod yn rhwymedigaethau mewn perthynas ag anaf neu golled sy'n codi yn sgil torri'r ddyletswydd i ofalu, ac yn benodol mae'n darparu y bydd y rhwymedigaeth hon yn ddyledus o ganlyniad i weithred neu hepgoriad gan weithiwr iechyd proffesiynol (neu gorff neu berson arall a bennir mewn rheoliadau - adran 1(4)(b)).

73. Rydym wedi cael llawer o dystiolaeth sy'n mynegi pryderon mewn perthynas ag effaith y cynllun arfaethedig ar weithwyr iechyd proffesiynol. Pe na bai'n cael ei drafod yn ofalus, awgrymodd yr RCN y gallai'r cynllun gwneud iawn atal gweithwyr iechyd proffesiynol rhag rhoi gwybod am gamgymeriadau. Dadleuai'r RCN ei bod yn bwysig bod gan nyrsys hyder yn y broses ymchwilio, a datgan:

"what was not clear... is the point at which an investigation is commenced, who will initiate that investigation, whether or not the professionals, namely nurses in our case, will be represented, and where the apology will come from."⁵⁵

⁵⁴ Annex E

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff [15], 16 Hydref 2007

74. Awgrymodd llawer o dystion i ni y byddai'n fuddiol pe bai'n cael ei derbyn bod y mwyafrif o gamgymeriadau'n digwydd drwy fethiannau yn y systemau ond bod yna, yn ymarferol, ddiwylliant o fwrw bai o hyd a phriodoli camgymeriadau i ymarferydd unigol.

75. Cynigiodd yr Undeb Amddiffyn Meddygol ragor o sylwadau ar hyn, gan gyfeirio'n benodol at yr angen, pan welir bod digwyddiad andwyol yn codi o fethiant mewn system, i beidio â bwrw bai ar glinigwyr unigol o dan amgylchiadau "where what we are really looking at is a systems error".⁵⁶ Mynegodd yr Undeb bryderon hefyd am sut y byddai'r broses ymchwilio'n cael ei thrafod ac am yr angen i'r rhai sy'n gyfrifol am y broses honno ddeall y dylai clinigwyr gael eu cynnwys ar ddechrau unrhyw broses gwyno yn enwedig felly os yw'n debyg y bydd y canlyniad yn cynnwys y clinigydd yng ngofal parhaus y claf.

76. Dywedodd Cydffederasiwn GIG cymru:

"no-one involved in healthcare will expect to be completely free of blame if something has gone wrong and it is their fault, but the important thing is the methods by which they are dealt with and how people can be trained and developed to ensure that a situation does not happen again."⁵⁷

77. Cydnabu'r AvMA y peryglon i ymarferwyr yn y broses, gan gydnabod:

"Sometimes, a clinician just happens to be the last one in the chain of a system error, where the system as a whole has failed the patient, but that clinician is the one pinpointed... and stigmatised by that label of being 'negligent'."⁵⁸

78. Cynigiodd yr AvMA "avoidability test" a fyddai'n gofyn y cwestiwn "could the adverse outcome have been avoided if the organisation responsible for the treatment had followed accepted good practice?"⁵⁹ gan awgrymu y byddai hyn yn gyfystyr â symud oddi wrth ddiwylliant o feio gan hoelio sylw ar achosion gwreiddiol a phroblemau mewn systemau. Un fantais ychwanegol y gallai hyn ei chreu fyddai sicrhau bod canlyniadau ymchwiliadau unigol yn rhoi'r atebion y mae eu hangen er mwyn gwella diogelwch i gleifion.

79. Roedd y BMA yn gofidio y gallai cael yr ymddiriedolaeth yn hytrach na chorff annibynnol i ymchwilio i'r gŵyn arwain at bwysau ar ymarferydd i gyfaddef rhwymedigaeth er mwyn i'r mater gael ei ddatrys yn gyflym. Tanlinellodd y BMA ganlyniadau anfwriadol ymchwiliadau ar gyfer ymarferwyr o safbwynt eu gyrfa, gan ddweud:

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [32], 25 Hydref 2007

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [152], 25 Hydref 2007

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff [55], 25 Hydref 2007

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR19

“it would be at the expense of the practitioner who would have to accept liability, which would have, these days, very considerable consequences for that practitioner’s career and career progression.”⁶⁰

80. Cytunodd y Gweinidog fod angen mesurau diogelu yn y cynllun a mecanweithiau cymorth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Daliai fod rhaid i’r staff gael sicrwydd “that their professionalism is not being questioned and that they are not being hounded under any new systems”.⁶¹ Pwysleisiodd hefyd mor bwysig yw ansawdd ymchwiliadau lleol er mwyn iddyn nhw ddatgelu methiannau mewn systemau a’r hyn y gellid ei briodoli i gamgymeriadau gan unigolion. Ni allai roi rhagor o wybodaeth ar hyn o bryd am sut y gallai hyn weithio yn ymarferol ond roedd yn ceisio sicrhau cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol a chyrrff proffesiynol i ymdrin â’r materion hyn.

81. Mae’n eglur o’r dystiolaeth bod yna lawer o bryder am yr effaith y gallai trefniadau gwneud iawn ei chael ar weithwyr iechyd proffesiynol. Mae’n eglur na fydd trefniadau gwneud iawn yn gweithio’n effeithiol os yw gweithwyr iechyd proffesiynol yn teimlo bod yna rwystrau sy’n eu hatal rhag bod yn agored ynglŷn â digwyddiadau andwyol. **Rydym yn argymhell y dylai’r Gweinidog bwysu a mesur y maes hwn yn ofalus gan sicrhau bod mesurau diogelu digonol yn cael eu cynnwys yn y trefniadau er mwyn sicrhau bod gan staff y GIG hyder yn y systemau a’u bod wedi’u diogelu rhag canlyniadau anfwriadol.**

82. Mae’n eglur i ni fod ansawdd yr ymchwiliadau a’r ffordd yr ymdrinnir â nhw yn allweddol yn hyn o beth ac rydym yn gwneud rhagor o argymhellion yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Terfynau iawndal

83. Mae’r Mesur yn darparu y caiff y rheoliadau bennu terfyn uchaf ar gyfer iawndal, ac os na chaiff terfyn o’r fath ei bennu, bod rhaid iddyn nhw bennu terfyn uchaf ar y swm sydd i’w gynnig mewn perthynas â phoen a dioddef.

84. Er bod y mwyafrif o’r tystion yn cytuno na ddylai terfyn ar gyfer iawndal ariannol gael ei bennu yn y Mesur, dywedodd llawer y dylai’r trefniadau gwneud iawn fod yn gymwys i hawliadau hyd at ryw £20,000. Dyna’r ffigur sy’n cael ei ystyried mewn perthynas â’r cynllun gwneud iawn yn Lloegr ac awgrymodd tystion y byddai’n ddoeth cael cysondeb, yn enwedig felly lle gallai triniaeth fod wedi’i rhoi ar draws y ffin. Cefnogwyd terfyn uchaf o £20,000 gan y Gweithgor Cyngor Cyfreithiol ond roedd y

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [138], 11 Hydref 2007

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [67], 25 Hydref 2007

Gweithgor o'r farn bod hwn yn faes lle mae angen i ragor o waith gael ei wneud er mwyn i'r amrediad llawn o opsiynau gael ei ystyried.⁶²

85. Dadleuai'r LSC y dylai terfyn uchaf yr iawndal fod yn "consistent with enabling as many claimants as possible to either pursue redress under the scheme or with the benefit of public funding".⁶³ Awgrymodd yr LSC mai £30,000 yw'r lefel a ddylai gael ei phennu er mwyn sicrhau na fyddai achosion ac iddyn nhw ragolygon da yn syrthio rhwng y trefniadau gwneud iawn ac arian cyhoeddus.

86. Er y gellid cael terfyn uchaf, am y tro o leiaf, awgrymodd yr AvMA y dylid cael hyblygrwydd yn y cynllun lle byddai'r ddwy ochr yn cytuno i ystyried setliad uwch o dan y cynllun. Nid oedden nhw'n cytuno y dylid gosod terfyn uchaf ar y swm a allai gael ei ddyfarnu ar gyfer poen a dioddef, gan ddadlau:

"If the scheme uses the definition of liability in tort and is to be a credible alternative to legal action, it must award damages which it would be expected would be awarded by a court of law."⁶⁴

87. Gofynnodd Cyngor Sir Caerfyrddin pwy fyddai'n adolygu'r tariffau a sut y caen nhw eu diwygio yng ngoleuni datblygiadau yn y gwyddorau meddygol. Dywedodd y Cyngor hefyd y byddai'n fuddiol "to have an annual review of tariffs and how the scheme is working tied into the production of annual statistics".⁶⁵

88. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r terfynau iawndal gael eu pennu mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y Mesur er mwyn sicrhau bod yna hyblygrwydd yn y cynllun.

89. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth fanylach i lefel y terfyn uchaf ar gyfer iawndal ac, yn benodol, i'r farn a gynigiwyd ynghylch y perygl o bennu terfyn rhy isel a allai olygu bod rhai achosion yn syrthio y tu allan i'r cynllun gwneud iawn, heb fod yn gymwys o bosibl i gael arian cyhoeddus i fynd yn eu blaen drwy'r llysoedd. Bydd y terfyn uchaf ar gyfer iawndal yn effeithio ar fath a nifer yr achosion a fydd yn gymwys ar gyfer trefniadau gwneud iawn a dyma faes lle y byddem yn disgwyl i'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth ar gyfer dadl Cyfnod 1.

Ymchwiliadau o dan y cynllun (Adrannau 4 a 5)

90. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi sut y bydd y trefniadau gwneud iawn yn gweithio. Mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar sefydliadau'r GIG i roi ystyriaeth weithredol i achosion ar gyfer iawn posibl. Mae adran 5 yn ymwneud â chyflwyno'r

⁶² Atodiad E

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR11

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR19

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR21

trefniadau gwneud iawn gan gynnwys cynnal ymchwiliadau a chyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau ymchwiliadau. Gan fod adran 5 yn ymdrin â'r materion mwyaf cyffredinol ynglŷn ag ymchwiliadau, dyna a drafodir gyntaf.

91. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu mai un o fanteision penodol y cynllun gwneud iawn arfaethedig fydd ymchwiliadau mwy effeithiol; caiff ymchwiliadau eu cynnal yn gynt ac mewn modd gwell.⁶⁶ Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn cydnabod y bydd yn bwysig iawn meithrin medrau'r staff i ymgymryd ag ymchwiliadau priodol ac y bydd hynny'n golygu costau arwyddocaol.⁶⁷

Cynnal ymchwiliadau

92. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 5(2) yn cynnwys darpariaeth ynghylch ymchwilio i geisiadau am iawn (gan gynnwys cael unigolyn o ddisgrifiad penodedig i oruchwyllo'r ymchwiliad).

93. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, mae'n glir bod llawer o'r ymatebwyr yn credu bod ymchwilio trylwyr yn elfen holl-bwysig wrth benderfynu a fydd y cynllun gwneud iawn arfaethedig yn gweithio'n effeithiol. Clywsom gan yr MDU:

“it is important that decisions taken about awarding compensation under the scheme are made after thorough investigation, with appropriate involvement of the clinician(s) concerned and in the light of appropriate expert evidence.”⁶⁸

94. Awgrymodd yr MPS fod y cwestiwn a yw'r cynllun yn gweithio'n dda ac yn ennyn hyder y rhai sydd dan sylw yn ymwneud yn bennaf oll â chymhwysedd y rhai sy'n cynnal ymchwiliadau.⁶⁹

95. Cyfeiriai tystiolaeth arall at yr angen i ymchwiliadau gael eu cynnal yn annibynnol. Er mwyn i'r system fod yn deg, roedd y BMA o'r farn y byddai ymarferwyr yn hoffi gweld ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn annibynnol ar Ymddiriedolaethau GIG, gan awgrymu:

“conducting investigations in this way would better allow any investigation to look not only at the practitioner's clinical skill and whether it was wanting, but also at whether the trust's management system was also at fault or could be improved.”⁷⁰

96. Tanlinellodd yr AvMA mor bwysig yw sicrhau bod digon o fesurau diogelu, rhwystrau a gwrthbwysau yn rhan gynhenid o'r broses ymchwilio er

⁶⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.14 and 8.12

⁶⁷ Ibid., paragraff 8.13

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR23

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [118], 11 Hydref 2007

⁷⁰ Ibid., paragraff [138]

mwyn sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn iawn. Awgrymodd yr AvMA y gallai fod yna bwyntiau penodol lle byddai'n fuddiol cynnwys arbenigwyr meddygol annibynnol yn y broses, fel yn y Cynllun Datrys Cyflym. Ochr yn ochr â hynny, fe allai fod angen sicrhau bod cleifion, lle bo'n briodol, yn cael cyngor ac efallai eu cynrychioli drwy'r broses.⁷¹ Mae darparu cyngor a chymorth o dan y cynllun yn cael ei drafod ym mharagraffau 132-154.

97. Pwysleisiodd y Gweinidog mor bwysig yw cynnal ymchwiliadau manwl a thrylwyr, gan ddatgan y bydd effeithiolrwydd y cynllun yn dibynnu ar ansawdd yr ymchwiliadau hyn.

Terfynau amser

98. Mae adran 5(2) hefyd yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau ynghylch terfynau amser ac unrhyw estyniadau arnyn nhw mewn perthynas â derbyn cynnig iawndal. Er hynny, does dim darpariaeth ar gyfer pennu terfynau amser fel rhan o'r broses ymchwilio. Cawsom dystiolaeth a oedd yn awgrymu y dylid cael darpariaeth felly.

99. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr wrthym fod angen terfynau amser cadarn oherwydd:

“if a claim develops a life of its own the whole process will be undermined. Therefore, we think that there should be rules about time limits. The trusts should welcome that as much as the claimant’s solicitor in ensuring that the investigation does not drag on.”⁷²

100. Pe bai gennych chi ymchwilydd annibynnol, awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai'n haws wedyn gorfodi terfynau amser am y bydden nhw'n dod at yr ymchwiliad yn gwbl annibynnol ar y ddau barti.⁷³ Cyfeiriodd y Gymdeithas hefyd at y terfyn amser o chwe i naw mis ar gyfer trafod achos o dan y Cynllun Datrys Cyflym, gan awgrymu mai'r terfyn amser yw'r ffactor allweddol sy'n peri bod y cynllun datrys cyflym yn ddeniadol i gleifion.⁷⁴

101. Awgrymodd RCN Cymru hefyd y gallai cynnwys amserlenni o dan y cynllun helpu i egluro'r broses ac y byddai o les i'r cleifion ac i'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd.⁷⁵ Awgrymodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru y byddai cynnwys terfynau amser yn y cynllun yn dod â hyder i mewn i'r system.⁷⁶

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau [72], [80] and [81], 25 Hydref 2007

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff [83], 16 Hydref 2007

⁷³ Ibid., paragraff [93]

⁷⁴ Ibid., paragraff [84]

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau [53] and [54], 16 Hydref 2007

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [37], 2 Hydref 2007

102. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg o blaid yr awgrym o gael proses dau gam lle y byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd, yn gyntaf, o fewn amser penodol, ynghylch a oes yna achos i'w ateb. Gallai'r ail gam, sy'n cynnwys yr ymchwilio manwl ar effaith unrhyw fethiannau a'r effaith ar y claf, ganiatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd.⁷⁷

103. Roedd y Gweinidog o blaid cynnwys terfynau amser fel rhan o ystyriaethau'r Gweithgor. Yn benodol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn gefnogol yn fras i'r cysyniad o sefydlu terfyn amser penodedig rhwng cychwyn y gŵyn a'r pwynt lle y byddai setliad yn cael ei gynnig.

Hyfforddiant a sgiliau

104. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod y bydd: "datblygu sgiliau'r staff i fedru ymgymryd â'r ymchwiliadau priodol yn bwysig iawn, o ran adeiladu ar y sgiliau a'r profiad presennol yn ogystal ag ennill meysydd newydd o arbenigedd".⁷⁸

105. Yn y dystiolaeth, clywsom y bydd angen cryn dipyn o ddatblygu a hyfforddi staff os bwriedir i ymchwiliadau gael eu cynnal yn y GIG. Roedd WHLS⁷⁹ o'r farn bod y lefelau staffio cyfredol yn y GIG yn annigonol i'r cynllun arfaethedig weithio'n effeithiol a dywedodd Cronfa Risg Cymru⁸⁰ fod rheolaeth ar hawliadau a chwynion wedi'i thanbriso yn gyson yn y sefydliadau.

106. Galwodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru am fwy o gysondeb o ran sut mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal a sôn bod angen i staff sy'n ymgymryd ag ymchwiliadau o'r fath gael hyfforddiant a chymwysterau priodol.⁸¹ Dywedodd yr MDU:

"people would have to be trained to know what expert advice to get, what information they would require, how to conduct a proper investigation, and how to get evidence from all those who were a part of the sequence of events."⁸²

107. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent y gellid gofyn i dîm penodedig, a fyddai'n gysylltiedig ag un sefydliad ym mhob un o ranbarthau'r GIG, asesu achosion iawndal ariannol ac a ddylai taliadau gael eu rhoi.⁸³

108. Cydnabu'r Gweinidog y bydd angen buddsoddi mwy mewn hyfforddi staff er mwyn sicrhau bod digon o arbenigedd ar gael i gynnal ymchwiliadau o dan y cynllun gwneud iawn arfaethedig. Dywedodd y Gweinidog wrthym

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [10] and [12], 11 Hydref 2007

⁷⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.18

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [120], 25 Hydref 2007

⁸⁰ Ibid., paragraff [122]

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [34], 2 Hydref 2007

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff [21], 25 Hydref 2007

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR14

fod y Gweithgor wrthi'n edrych ar fanylion y sgiliau a'r hyfforddiant a allai fod yn angenrheidiol.

Canfyddiadau'r gweithgorau - adroddiadau interim

109. Yn eu hadroddiad interim, mae'r Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau yn awgrymu bod angen meithrin diwylliant cyffredin tuag at ymchwiliadau yn y GIG. Mae'r Gweithgor yn datgan y dylai'r ymagwedd gyffredin hon gael ei hadlewyrchu yn strwythurau a llinellau atebolrwydd cyrff y GIG ac y dylai hynny gael ei hybu ar lefel y Bwrdd. Cyn ei adroddiad terfynol, mae'r Gweithgor yn disgwyl edrych yn fanylach ar ddatblygu argymhellion penodol ar gyfer gweithredu'r broses ymchwilio, gan gynnwys amserlenni a'r adnoddau, y sgiliau a'r hyfforddiant staff y bydd eu hangen.

110. Yn eu hadroddiad interim, mae'r Gweithgor yn pwysleisio bod angen un broses ymchwilio ar gyfer cwynion, hawliadau a digwyddiadau diogelwch cleifion. Mae'r Gweithgor yn awgrymu y dylai cynnal un ymchwiliad a all ymdrin yn llawn ac yn briodol â'r holl faterion a godir, yn hytrach na nifer o ymchwiliadau o dan weithdrefnau gwahanol "ensure that neither patients nor healthcare staff have to endure protracted, sometimes multiple and open-ended investigations".⁸⁴ Mae'r Gweithgor yn dweud y bydd cynnal ymchwiliadau o'r math hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG sicrhau adnoddau digonol gyda staff y mae ganddyn nhw'r sgiliau, yr arbenigedd a'r cymhwysedd angenrheidiol ac y bydd rhaid i'r staff hyn fod ar lefel briodol o ran safle uchel neu allu sicrhau cymorth swyddogion uwch yn hawdd.⁸⁵

111. Rhoddodd y Gweithgor ystyriaeth hefyd i'r opsiwn o gynnwys terfyn amser cyffredinol o 12 mis ar gyfer ymchwilio i achosion o dan y cynllun gwneud iawn. Mae adroddiad y Gweithgor yn dweud hyn: "whilst it was agreed that this might be a useful working assumption, the group felt that more work needed to be done, in conjunction with the Legal Advice Working Group, to determine a realistic overall timescale for this element of the process".⁸⁶

112. Rydym yn cydnabod y rhan bwysig y bydd y broses ymchwilio yn ei chwarae wrth gyfrannu at lwyddiant y cynllun gwneud iawn. Adlewyrchir hyn yng nghryfder y farn a fynegwyd inni yn y dystiolaeth.

113. Mae'r broses ymchwilio yn allweddol ar gyfer llwyddiant unrhyw drefniadau gwneud iawn ac rydym yn annog y Gweinidog i sicrhau bod y dystiolaeth fanwl yr ydym wedi'i chael ar y broses ymchwilio yn cael ei chymryd i ystyriaeth gan y Gweithgor ac wrth i'r rheoliadau perthnasol gael eu llunio.

114. Rydym o'r farn bod angen terfynau amser interim er mwyn sicrhau bod gan gleifion a staff y GIG hyder mewn unrhyw drefniadau gwneud

⁸⁴ Atodiad E

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Ibid.

iawn. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r terfynau amser hyn gael eu nodi mewn rheoliadau yn y dyfodol o dan y Mesur. Er hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Mesur gael ei ddiwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer terfynau amser mewn perthynas â phroses yr ymchwiliad.

Cadw adroddiadau ar ymchwiliadau yn ôl

115. Mae adran 5(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ganlyniadau unrhyw ymchwiliad gael eu cofnodi mewn adroddiad ac i gopi o'r adroddiad hwnnw fod ar gael i'r unigolyn sy'n ymofyn am iawn. Mae'r Mesur hefyd yn darparu nad oes angen rhoi adroddiad o dan amgylchiadau penodol.

116. Roedd y dystiolaeth a gafwyd ar y mater hwn yn adlewyrchu dau safbwynt yn bennaf. Awgrymodd y rhai a oedd yn credu bod rhaid i'r broses ymchwilio ac adrodd fod yn gwbl dryloyw y dylai adroddiadau ar ymchwiliadau gael eu datgelu bob amser. Awgrymodd eraill y gellid cael amgylchiadau penodol lle na fyddai'n fuddiol datgelu'r adroddiad llawn i hawliwr.

117. Dywedodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru wrthym "an investigation should be a fact-finding exercise, which should be open and transparent and we should all be able to scrutinise who they spoke to, where the statements came from and how they achieved those statements".⁸⁷ Roedd yr AvMA yn credu y dylai fod gan unrhyw berson y bu ei achos yn destun ymchwiliad hawl sylfaenol i gael yr adroddiad.⁸⁸

118. Er mwyn i gynghorwyr cyfreithiol bwysu a mesur pa mor briodol fyddai cynnig, roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn credu bod rhaid iddyn nhw gael gweld y dogfennau y seilid yr hawliad arnyn nhw. Mae'r Gymdeithas yn credu bod hyn yn sylfaenol ar gyfer llwyddiant y trefniadau gwneud iawn ac awgrymodd na fyddai unrhyw beth llai yn ennyn ymddiriedaeth na hyder hawlwrwyr posibl.⁸⁹

119. Er hynny, clywsom dystiolaeth y gallai fod yn briodol cadw adroddiad yn ôl, o dan amgylchiadau penodol. Awgrymodd yr MPS y gallai datgelu fod yn amhriodol os oes yna risg y gallai'r wybodaeth beri risg o niwed difrifol i iechyd neu les unigolyn a allai gael ei adnabod.⁹⁰ Awgrymodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru y gallai adroddiadau gael eu cadw'n ôl os gallen nhw beri niwed mewn perthynas ag achosion iechyd meddwl.⁹¹

120. Er hynny, dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin wrthym y gallai fod yn fwy priodol, o dan rai amgylchiadau lle ceir risg o niwed, rhoi adroddiad

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [134], 2 Hydref 2007

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR19

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR31

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [101], 11 Hydref 2007

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [132], 2 Hydref 2007

diwygiedig i'r achwynydd yn hytrach na gwrthod yn llwyr â datgelu'r adroddiad.⁹²

121. Dywedodd y Gweinidog ei bod o blaid ystyried ymhellach a allai adroddiadau ar ymchwiliadau gael eu cadw'n ôl o dan amgylchiadau eithriadol penodol.

122. Rydym yn bryderus nad yw'r Mesur yn pwysleisio mor bwysig yw datgelu gwybodaeth i'r achwynydd.

123. Er ein bod yn cydnabod y gellid cael amgylchiadau lle y gallai fod yn briodol cadw gwybodaeth yn ôl rhag achwynydd, rydym o'r farn y dylai achosion o'r fath fod yn eithriadau.

124. Rydym yn argymhell y dylai'r Mesur gael ei gryfhau i ragnodi y bydd adroddiadau ar ymchwiliadau yn cael eu datgelu fel rheol ac mai o dan amgylchiadau eithriadol yn unig y caniateir eu cadw'n ôl. Dylai mesurau diogelu gael eu cynnwys yn y Mesur hefyd i sicrhau y dylai unrhyw benderfyniad i gadw adroddiad ar ymchwiliad yn ôl gael ei adolygu gan gorff sy'n annibynnol ar y sefydliad GIG sydd o dan sylw yn yr achos.

Dyletswydd i gynnal ymchwiliadau

125. Mae adran 4 yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i osod dyletswydd ar gorff neu berson sy'n ymchwilio i achos neu'n adolygu achos i fynd ati i ystyried a oes yna rwymedigaeth bosibl ac achos o blaid gwneud iawn.

126. Nifer cymharol fach o'r tystion a gyflwynodd sylwadau ar sut y gallai dyletswydd i ymchwilio weithio yn ymarferol. Nododd cydffederasiwn GIG Cymru⁹³ ac Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg⁹⁴ eu bod yn gryf o blaid yr egwyddor y dylai ymchwiliad fynd ati i ystyried pa iawn a allai fod yn briodol, gan ddechrau cyfathrebu â'r claf yn unol â hynny. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth GIG:

“If regulations do not require these steps, it could be viewed that the onus remains unfairly placed on patients to know when there may be a potential right of action and to pursue it. The question must be asked whether this fits with a healthcare system that should be open and honest with the patients it serves and is perceived to act accordingly.”⁹⁵

127. Awgrymodd Cyngor ar Bopeth Cymru y byddai ymagwedd agored o'r fath at roi gwybod am gamgymeriadau yn arwydd o newid diwylliannol

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR21

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR34

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHR30

⁹⁵ Ibid.

aruthrol.⁹⁶ Cyfeiriodd RCN Cymru at y diwylliant o fwrw bai a geir yn y GIG ac awgrymu bod angen i'r cynllun arfaethedig gydnabod mai camgymeriadau systemig yw'r mwyafrif o'r camgymeriadau, yn gysylltiedig yn aml â lefelau staffio gwael a chyfathrebu gwael rhwng staff clinigol.⁹⁷ Pe bai nyrsys yn teimlo'n hyderus mai dyma'r diwylliant a geid, awgrymodd RCN Cymru y bydden nhw'n fodlon iawn codi eu pryderon am ddigwyddiad a fyddai wedi digwydd ar ward.⁹⁸

128. Ni allai'r Gweinidog roi dim gwybodaeth inni o ran pwy y byddai'r ddyletswydd yn syrthio arno a phwy fyddai'n dweud wrth y cleifion pe bernid bod achos yn gymwys ar gyfer iawn. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu ymgynghori ymhellach ar sut y byddai'r ddarpariaeth hon yn gweithio.

129. Ym marn y Gweithgor Ymchwiliadau a Phrosesau, os oes pethau wedi mynd o chwith, "NHS bodies should be honest and focus on what is a fair outcome for the patient/family in the circumstances. Where it is fair and appropriate, NHS bodies should feel able to make an offer of redress whether or not a patient has made a formal claim".⁹⁹

130. Rydym yn croesawu bod y ddyletswydd ar sefydliadau'r GIG sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ymchwilio i achosion a'u hasesu mewn modd rhagweithiol wedi'i chynnwys yn y Mesur.

131. Rydym yn dal yn bryderus ynghylch y diffyg manylion am sut y bydd y darpariaethau'n gweithio ac rydym yn galw ar y Gweinidog i egluro yn y rheoliadau ble y bydd y ddyletswydd i gynnal ymchwiliadau yn syrthio a sut y caiff ei gorfodi a'i monitro. Byddem yn disgwyl i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn ar gyfer dadl Cyfnod 1.

Cyngor a chymorth o dan y cynllun (Adrannau 7 ac 8)

132. Mae'r Mesur yn ceisio helpu cleifion gyda chyngor cyfreithiol a chymorth cyffredinol o dan y cynllun gwneud iawn arfaethedig. Mae adran 7 yn pennu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol a gwasanaethau eraill, megis barn feddygol arbenigol, yn rhad ac am ddim i'r hawlwyd.

133. Mae adran 8 o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer mathau eraill o gymorth i unigolion a gwneud taliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r cymorth hwn fel cymorth sy'n wahanol i'r hyn a gynigir yn adran 7 yn yr ystyr ei fod yn llawer tebycach i gymorth neu gyngor cyffredinol i bobl sy'n teimlo eu bod yn awyddus i siarad am eu sefyllfa cyn cymryd rhagor o gamau.¹⁰⁰

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [142], 2 Hydref 2007

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [20], 16 Hydref 2007

⁹⁸ Ibid., paragraff [21]

⁹⁹ Atodiad E

¹⁰⁰ Memorandwm Esboniadol, Atodiad: Nodiadau Esboniadol, paragraff 19

134. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tanlinellu darparu cyngor cyfreithiol a chymorth eiriolaeth yn ddi-dâl fel un o fanteision penodol y cynllun gwneud iawn arfaethedig.¹⁰¹ Mae'r Gweinidog wedi penodi dau Weithgor o dan brosiect Gweithio i Wella i ddod o hyd i'r mecanweithiau ar gyfer darparu cyngor a chymorth o dan y cynllun a chostau tebygol gwneud hynny.¹⁰²

135. Yn eu tystiolaeth, rhoddodd amryw o sefydliadau groeso i'r cynigion ynglŷn â rhoi cyngor cyfreithiol a chymorth o dan y cynllun. Er hynny, tanlinellodd y dystiolaeth hefyd fod diffyg gwybodaeth o ran y strwythur ar gyfer rhoi cyngor a chymorth o'r fath.

136. Roedd yr AvMA o'r farn bod y cyfle i gael cyngor cyfreithiol heb dâl yn gwbl angenrheidiol o dan y cynllun.¹⁰³ Rhoddodd yr LSC¹⁰⁴ a Chymdeithas y Cyfreithwyr¹⁰⁵ groeso i'r cynigion yn adran 7, ond galw am fwy o eglurder o ran hyd a lled gwasanaeth o'r fath. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru wrthym nad yw'n glir pwy fydd yn rhoi'r cymorth i gleifion o dan adran 8 o'r Mesur.¹⁰⁶

137. Cyfeiriodd llawer o'r dystiolaeth a gawsom at nifer o feysydd allweddol a ddylai gael eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o lunio'r rheoliadau ynghylch cyngor a chymorth o dan y cynllun. Roedd y prif feysydd i'w hystyried yn ymwneud â pha bryd y dylid trefnu bod cymorth ar gael, hynny yw a oes yna gyfnodau allweddol pryd y bydd ei angen yn benodol, a phwy ddylai roi'r cyngor a'r cymorth? Cyfeiriodd rhywfaint o'r dystiolaeth at yr angen i gyngor cyfreithiol gael ei roi gan arbenigwyr cyfreithiol wedi'u hyfforddi'n unswydd, tra canolbwyntiai tystiolaeth arall ar gynnwys cynghorwyr arbenigol annibynnol yn y broses gwneud iawn.

138. Mynegodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) y farn gref y dylai cyngor a chymorth i gleifion o dan y trefniadau gwneud iawn gael eu rhoi yn ystod pob rhan o'r broses. Roedd y WCVA yn bryderus bod y ddarpariaeth ar gyfer cyngor cyfreithiol di-dâl a chymorth eiriolaeth wedi'i phennu fel pe bai ar gael fel y gwêl y Gweinidogion yn dda yn unig. Dywedodd y Cyngor fod angen cyngor a chymorth am ddim "at all stages of the process and should not be reliant on Ministers deciding if the need for such support is valid".¹⁰⁷

139. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai fod gan hawl wyr hawl i gael cyngor cyfreithiol heb dâl ar gyfnodau allweddol drwy gydol y broses. Dadleuai'r Gymdeithas y byddai gwneud unrhyw beth arall yn erydu

¹⁰¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.14

¹⁰² Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 10 Hydref 2007: Atodiad C

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR19

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR11

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR31

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR3

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR12

hawliau'r achwynydd i gael cyfiawnder o dan y cynllun.¹⁰⁸ Yn benodol, roedd y Gymdeithas o'r farn na fyddai'n deg ei gwneud yn ofynnol i ddiodefwyr gytuno ar delerau setliad heb gael cyngor cyfreithiol priodol.¹⁰⁹

140. Hoeliodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru sylw ar werth darparu cyngor a chymorth i gleifion ar ddechrau'r broses o wneud iawn. Roedd y Bwrdd yn credu bod yna berygl y gall cleifion fynd ar goll yn y broses ac felly y byddai'n llawer mwy buddiol i'r cleifion gael canllawiau a chyfle i siarad am y broses ar y dechrau yn deg.¹¹⁰

141. Mae'n eglur bod amseru cyngor a pha bryd y caiff cymorth ei roi o dan y cynllun yn fater cymhleth, y cyfeiriodd WHLS ato yng nghyd-destun gwaith y Gweithgor Cyngor Cyfreithiol. Dywedwyd wrthym:

“there is unlikely to be an agreement between us as to how much legal advice is needed, because there is no doubt that those lawyers who provide legal advice in clinical negligence claims consider it to be essential at nearly every stage to ensure that the patient has been adequately heard and represented. That is unlikely to change.”¹¹¹

142. Tynnodd tystiolaeth arall sylw at yr angen i gyngor cyfreithiol a chymorth gael eu rhoi yn annibynnol gan y rhai sydd ag arbenigedd perthnasol. Galwodd yr LSC am i gyngor gael ei roi yn annibynnol ar y GIG. Roedd y Comisiwn yn pryderu y gallai rheoliadau o dan adran 9(2)(ch) o'r Mesur ganiatáu i GIG Cymru ei hun roi cyngor o dan y cynllun.¹¹² Dywedodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru wrthym hefyd ei bod yn hanfodol i'r cyngor a'r cymorth gael eu cydnabod gan yr achwynydd fel cyngor a chymorth sy'n annibynnol ar y GIG. Dywedodd y Bwrdd fod yr annibyniaeth hon yn hanfodol o ran ennyn hyder y cleifion a'r cyhoedd yn y cymorth a'r cyngor y maen nhw'n eu cael.¹¹³

143. Cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr¹¹⁴ a'r LSC¹¹⁵ at yr angen i gyfreithwyr gael eu hachredu o dan y Cynllun Achredu Esgeulustod Clinigol neu gael eu cyflogi gan yr AvMA. Roedden nhw o'r farn y byddai hynny'n sicrhau bod diodefwyr yn cael cyngor cyfreithiol arbenigol gan gyfreithwyr ag arbenigedd perthnasol wrth ymdrin â materion esgeulustod clinigol.

144. Tanlinellodd tystiolaeth arall mor werthfawr yw cynnwys cyngorwyr meddygol annibynnol yn y broses o wneud iawn. Dywedodd yr AvMA wrthym yr hoffon nhw weld ffynhonnell fwy arbenigol o gyngor a chymorth, nid cynrychiolaeth gyfreithiol gyflawn o reidrwydd, ond un a allai yn sicr fod yn

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR31

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [68], 16 Hydref 2007

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff [49], 2 Hydref 2007

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff [129], 25 Hydref 2007

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR11

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR20

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR31

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR11

fwy gwybodus ac arbenigol o ran materion clinigol a chyfreithiol.¹¹⁶ Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg hefyd fod cyfraniad gan arbenigwyr annibynnol yn fuddiol iddi o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, os na all clinigwyr ddod i gonsensws, neu os bernir mai barn allanol, annibynnol yw'r unig ffordd i fodloni'r achwynydd.¹¹⁷

145. Awgrymodd Cronfa Risg Cymru y byddai'n werth ystyried cynnwys cyngorwyr heblaw gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sydd â chymwysterau llawn yn y cynllun. Awgrymwyd y gallai cyfreithwyr weld y cynllun "as a repository for those cases which they would not normally consider taking forward by traditional means and so, costs may be incurred in cases which would otherwise have been filtered out by the current system".¹¹⁸ Dywedodd WHLS hefyd y gallai cyfryngwyr wedi'u hyfforddi gael eu cynnwys yn fwy yn y broses o wneud iawn ac y gallai hynny olygu na fyddai angen cyngor cyfreithiol ar y rhai sy'n deall y broses yn ddigon da.¹¹⁹

146. Cyflwynodd WHLS sylwadau hefyd ar y diffyg darpariaeth ar gyfer goruchwylio, monitro ac archwilio darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yn y Mesur.¹²⁰ O ran defnyddio cyngorwyr annibynnol o dan y cynllun, awgrymodd Cronfa Risg Cymru y byddai angen cyflwyno mecanweithiau i gadw rheolaeth fanwl ar hyfforddiant, i asesu cymhwysedd ac i fonitro perfformiad.¹²¹

147. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y ddarpariaeth ar gyfer cyngor a chymorth cyfreithiol o dan y cynllun yn cael ei hystyried gan ddau Weithgor sy'n rhan o brosiect Gweithio i Wella.

148. Cyfeiriodd y Gweinidog at arbenigedd nifer o sefydliadau a allai gael eu cynnwys mewn rhoi cyngor a chymorth o dan y cynllun megis y WHLS, Cronfa Risg Cymru, Cyngorau Iechyd Cymuned a Chyngor ar Bopeth Cymru. Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn ymwneud â Gweithgorau'r prosiect. Er hynny, ni allai'r Gweinidog roi dim rhagor o fanylion am sut y gallai cyngor neu gymorth gael eu rhoi o dan y cynllun.

Canfyddiadau'r gweithgorau - adroddiadau interim

149. Yn eu hadroddiad interim, cydnabu'r Gweithgor Cyngor Cyfreithiol fod angen cyngor cyfreithiol yn yr ystyr y bydd yn rhoi i gleifion a chyrrff GIG gyngor annibynnol a sicrwydd ansawdd ynghylch yr ymchwiliad ac unrhyw gynnig i setlo.¹²² Roedd y Gweithgor o'r farn y dylai eiriolaeth fod ar gael yn ychwanegol at gyngor cyfreithiol o dan y trefniadau gwneud iawn, gan awgrymu na ddylai cleifion gael eu hatal rhag defnyddio'r naill wasanaeth os yw'r llall wedi cael ei dynnu i mewn.

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff [76], 25 Hydref 2007

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff [43], 11 Hydref 2007

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR33

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff [131], 25 Hydref 2007; Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR32

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR32

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR33

¹²² Atodiad E

150. Cyfeiriodd adroddiad y Gweithgor at y materion penodol ynglŷn â pha bryd y dylai cyngor cyfreithiol gael ei ddarparu o dan y cynllun a phwy ddylai ddarparu'r gwasanaeth hwn. Er bod y Gweithgor o'r farn y byddai'n well gan rai hawl wyr gael mwy o gymorth cyfreithiol nag eraill, mae yna nifer o gyfnodau allweddol pryd y dylai cyfraniad o'r fath fod ar gael. Tanlinellodd y Gweithgor y cyfnodau allweddol a ganlyn: ar ddiwedd ymchwiliad a gynhelir gan ymddiriedolaeth GIG; lle derbynnir bod dyletswydd wedi'i thorri, ond bod angen rhagor o farn arbenigol oherwydd yr achos a/neu brognosis y claf; lle mae ymddiriedolaeth GIG wedi gwneud cynnig ex gratia heb gyfaddef rhwymedigaeth; neu lle mae cynnig i setlo wedi'i roi.

151. Ystyriodd y Gweithgor hefyd pwy ddylai roi'r cyngor cyfreithiol hwn o dan y trefniadau gwneud iawn. Daeth i'r casgliad mai cyfreithwyr sy'n arbenigo mewn esgeulustod clinigol - sef aelodau cydnabyddedig o'r AvMA neu o banel Esgeulustod Clinigol Cymdeithas y Cyfreithwyr - sydd fwyaf priodol er mwyn sicrhau cysondeb a sicrwydd ansawdd y cyngor a roddir.

152. Ystyriodd y Gweithgor Eiriolaeth a Chymorth elfennau o ddarparu cyngor a chymorth hefyd, gan ganolbwyntio ar wasanaethau eiriolaeth a chymorth i gleifion, o dan y cynllun gwneud iawn.¹²³ Cydnabu'r Gweithgor hefyd fod gan Gyngor ar Bopeth Cymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a'r AvMA arbenigedd yn y maes hwn. Yn eu hadroddiad interim, cyflwynodd y Gweithgor nifer o argymhellion gan gynnwys defnyddio gwasanaethau cyfryngu annibynnol lle bo'n briodol a chyflwyno memorandwm cyd-ddealltwriaeth i sicrhau bod yr ohebiaeth, yr wybodaeth a'r cymorth a roddir i gleifion yn gyson ar draws pob sefydliad. Argymhellodd y Gweithgor hefyd, ni waeth a oes cyngor cyfreithiol wedi'i gyrchu neu beidio, y dylai eiriolaeth a chymorth fod ar gael i'r claf drwy gydol y gŵyn.

153. Rydym yn cydnabod mor bwysig yw darparu cyngor a gwybodaeth glir a chryno i gleifion o dan y trefniadau gwneud iawn ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu cyngor a chymorth yn rhad ac am ddim fel rhan o'r cynllun gwneud iawn.

154. Rydym yn nodi canfyddiadau interim y gweithgorau ar y mater hwn ac yn galw ar y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am sut y bydd y darpariaethau hyn yn gweithio ar gyfer y ddadl yng Nghyfnod 1. Yn benodol, rydym yn gofyn am eglurhad gan y Gweinidog ynghylch pa bryd y bydd cyngor a chymorth ar gael o dan y cynllun, pwy fydd yn rhoi'r cyngor a'r cymorth hwnnw a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu monitro er mwyn sicrhau ymagwedd gyson.

Strwythur y Cynllun (Adran 9)

155. Nid yw'n glir o'r Mesur beth fydd strwythur y cynllun na sut y caiff ei fonitro a'i reoli. Mae Deddf Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2006 sy'n

¹²³ Ibid.

gymwys mewn perthynas â Lloegr yn nodi y bydd yna “Awdurdod Iechyd Arbennig” (y cyfeirir ato fel “awdurdod y cynllun”). Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodaeth a swyddogaethau penodol yr awdurdod.

156. Mae adran 9(2) o’r Mesur yn gwneud darpariaeth i’r rheoliadau ddarparu ar gyfer rhoi i bersonau neu gyrff swyddogaethau sy’n debyg i swyddogaethau “awdurdod y cynllun” yn Neddf y DU; ymofyn am iawn, gwneud taliadau, monitro a chasglu data etc., ond nid yw’n pennu pwy fyddai’n cyflawni’r swyddogaethau hyn, nac y bydden nhw i gyd yn cael eu cyflawni gan un corff o reidrwydd.

157. Mae adran 9(4) hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynyddol am achosion gan berson neu gorff y mae’r rheoliadau yn gymwys iddo, gan gynnwys y gwersi sydd i’w dysgu.

158. Roedd llawer o’r dystiolaeth ysgrifenedig yn benodol yn cyfeirio at anhawster asesu’r trefniadau gwneud iawn oherwydd y diffyg gwybodaeth am eu rheoli. Argymhellodd nifer o’r tystion y byddai angen rhyw fath o gorff goruchwylio i ymdrin â chanllawiau, sicrhau cysondeb a sicrhau perchnogaeth ar y broses ar y lefel leol hefyd. Awgrymwyd y gallai hynny arwain at amrywiadau ar y lefel leol ond bod pwysigrwydd perchnogaeth leol yn drech na’r risg y byddai pobl yn dehongli pethau’n wahanol. Roedd yn ymddangos bod yna gytundeb cyffredinol bod angen cysondeb ledled Cymru, yn enwedig mewn perthynas â thariffau a safonau ymchwilio.

159. Yn ôl Cronfa Risg Cymru, “local management led to better ownership, and that that led to lessons being better learnt”.¹²⁴ Er hynny, roedden nhw’n cytuno y byddai angen cael cymorth canolog ar gyfer rheolwyr hawliadau.

160. Rhoddodd BILL Blaenau Gwent amlinelliad pellach o bwysigrwydd perchnogaeth leol o ran dysgu gwersi o ddigwyddiadau andwyol. Esboniodd y Bwrdd fod cwynion yn rhan bwysig o broses deall sut mae gwasanaethau’n cael eu cyflwyno ac a ydyn nhw’n bodloni anghenion y cleifion neu beidio. Nod y Bwrdd yw:

“learn from complaints and concerns to enable us to continue to improve services, build on best practice and provide services that are of the highest standard and quality.”¹²⁵

161. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd o blaid sefydlu corff goruchwylio, fel yn Lloegr, a’i bod am gadw pwyslais lleol yn y cynllun. Dywedodd na allai ffurfio barn ar sut y byddai’r cynllun yn gweithio yn ymarferol nes iddi ymgynghori ag Ymddiriedolaethau’r GIG. Roedd yn derbyn y byddai angen canllawiau er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru a

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff [114], 25 Hydref 2007

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NHSR14

chytunodd fod angen i sefydliadau lleol gael eu harchwilio er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu defnyddio.

162. Rydym yn argymhell y dylai'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer rheolaeth gyson a chanllawiau ar gyfer y trefniadau gwneud iawn.

Proses cwyno ac apelio (Adran 10)

163. Nid yw'r Mesur yn darparu ar gyfer unrhyw hawl i apelio os yw'r claf yn anghytuno â'r penderfyniad sydd wedi'i wneud mewn perthynas â chynnig iawn. Er hynny, mae cwyn yn gallu cael ei gwneud i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch gweinyddu'r trefniadau, hynny yw a gafodd y penderfyniad ei wneud yn y modd priodol. Yr unig lwybr sydd ar agor i glaf nad yw'n fodlon ar gynnig sydd wedi'i roi iddo o dan drefniadau gwneud iawn fyddai gwrthod y cynnig a mynd ar ôl hawliad drwy'r llysoedd, yr un fath â'r sefyllfa ar hyn o bryd.

164. Roedd yr LSC o'r farn y dylai'r Mesur wneud darpariaeth ar gyfer apêl neu adolygiad ar unrhyw ganlyniad ac y dylai'r penderfyniad ar apêl gael ei wneud gan gorff annibynnol. Cydnabu'r LSC nad oes gan y Cynllun Datrys Cyflym broses apelio, ond dadleuai fel a ganlyn:

“given the redress scheme is intended to be permanent, the amount of damages that may be at stake and the consequent impact on claimants' lives, for claimants to have confidence in it they should be able to challenge an outcome.”¹²⁶

